

PWYLLGOR CYNLLUNIO

(Y BELL TRWY TEAMS)

Aelodau'n bresennol:

Dydd Mawrth, 20 Gorffennaf 2021

Cadeirydd: Aelod S.Paddison

Is-gadeirydd: Aelod S.Pursey

Cynghorydd: D.Keogh, R.Mizen, R.Davies, S.K.Hunt,
A.N.Woolcock, S.Renkes a/ac M.Protheroe

Aelodau Lleol: Aelod C.James (Briton Ferry East;)

Swyddogion yn bresennol: C.Morris, S.Ball, M.Shaw, J.Griffiths, S.Evans,
G.White a/ac T.Davies

1. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2021 fel cofnod cywir.

2. GWNEUD CAIS AM YMWELIAD (AU) SAFLE GAN Y CEISIADAU A GYFLWYNWYD

PENDERFYNWYD: Peidio â chynnal unrhyw ymweliadau safle ar y ceisiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor heddiw.

3. TAFLENDDIWYGIADAU

Sylwer: Dosbarthwyd taflen ddiwygio mewn perthynas â chais rhif P2019/0637 cyn y cyfarfod, yr oedd y Cadeirydd wedi rhoi amser digonol i'r aelodau ei darllen, mewn perthynas ag eitem y cais ar yr agenda a gyhoeddwyd. Roedd y Cadeirydd wedi rhoi caniatâd iddi gael ei dosbarthu/hystyried yn ystod y cyfarfod heddiw am y rhesymau a'r amgylchiadau arbennig canlynol: nid oedd am ohirio unrhyw geisiadau ac roedd am sicrhau bod aelodau'n ystyried yr holl

wybodaeth berthnasol ychwanegol cyn gwneud unrhyw benderfyniad yn ystod y cyfarfod.

4. **P2021/0637 - 161 NEATH ROAD, LLANSAWEL, CASTELL-NEDD**

Rhoddodd swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (Newid o ddefnydd preswyl (Defnydd Dosbarth C3) i dŷ 5 ystafell wely Amlfeddiannaeth (HMO) (Defnydd Dosbarth C4) yn 161 Neath Road, Llansawel, Castell-nedd SA11 2BX) fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd aelod y ward lleol yn bresennol i roi ei sylwadau.

PENDERFYNWYD: Yn unol ag argymhellion y swyddogion, a'r amodau a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, y dylid cymeradwyo Cais Rhif P2021/0637.

CADEIRYDD